# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**EOC(3)02-07(p.4): 11 Hydref 2007**

## Cymryd rhan mewn Cyfarfodydd Pwyllgor

1. Cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2007, a chyn i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ddod i rym, roedd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol restr o Wahoddedigion sefydlog i'w cyfarfodydd, a byddai'r rhain yn eistedd wrth y bwrdd ac yn cymryd rhan i wahanol raddau yn nhrafodaethau'r pwyllgor. Mae'r Ddeddf a'r Rheolau Sefydlog a wnaed oddi tani wedi newid y sefyllfa o ran gwahoddedigion o'r math. Mae 'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal newydd wedi gofyn am egluro'r hyn sydd yn dderbyniol o dan y darpariaethau newydd. 2. Mae Rhan 28(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu – "The members of a committee of the Assembly, or of a sub-committee of such a committee, may not include anyone who is not an Assembly member." Er bod y gwaharddiad hwn ymhlyg yn Neddf 1998, mae'r newid a gyflwynir yn Neddf 2006 yn peri bod y gwaharddiad yn un penodol. 3. Wrth ddarparu'r Rheolau Sefydlog newydd, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r trefniadau a fodolai'r pryd hwnnw ar gyfer y ddau gyn-bwyllgor. Mae Rheol Sefydlog 18.2 yn darparu'n benodol, o ran y Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd ac Allanol, y "Caniateir i Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau fod yn bresennol, a chyda chaniatâd y cadeirydd, cânt siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, ond ni chânt bleidleisio" Ni cheir darpariaeth debyg o ran y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, sydd felly'n ddarostyngedig i'r darpariaethau cyffredinol sy'n gymwys ar gyfer pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol. 4. Y darpariaethau perthnasol yw Rheolau Sefydlog 10.43 a 10.44, sydd yn darllen fel hyn – 10.43 Gyda chaniatâd y cadeirydd, caiff Aelodau nad ydynt yn aelodau o bwyllgor gymryd rhan mewn cyfarfod pwyllgor ond ni chânt bleidleisio. 10.44 Caiff pwyllgorau wahodd unrhyw berson i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd er mwyn rhoi tystiolaeth, neu roi cyngor a chânt wahodd unrhyw berson neu gorff o'r fath i gyflwyno tystiolaeth a dangos dogfennau. 5. Rheol Sefydlog 10.44 felly sy'n penderfynu safle'r gwahoddedigion sefydlog gynt. Dim ond i berwyl rhoi tystiolaeth neu ddarparu cyngor y gellir eu gwahodd i gyfarfodydd, ac nid i gyfranogi yn nhrafodaethau'r Pwyllgor yn gyffredinol. 6. Mae'r newid yn bwysig am fod hawliau pwysig ar gael i Aelodau'r pwyllgorau – yn bennaf, yr hawl i holi tystion yn uniongyrchol ac i benderfynu neu i ddylanwadu ar benderfyniadau. Daw'r hawliau hyn yn sgil bod yn Aelod etholedig ac ni ddylid eu trosglwyddo i neb arall. Mae mater pwysig braint ynghlwm wrth hynny – mae angen i'r Aelodau a'r tystion gael eu diogelu ganddi er mwyn gallu siarad yn rhydd ac yn blaen ond ni ddylid estyn y fraint hon i eraill, neu byddai'r Cynulliad yn rhoi safle unigryw a diogel i rai ymgynghorwyr na fyddai ganddynt, fel arall. 7. Byddai'n amhriodol (ac yn groes i'r Rheolau Sefydlog) i rai cyrff gyfranogi yn y dasg o graffu ar waith Gweinidogion neu dystion eraill sy'n rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn ei swyddogaeth newydd. Gwyn Griffiths
GSC Cyfreithiol Hydref 2007